

Adroddiad Ymgynghori ar Gyfuno Arfaethedig

Ysgol Dolgarrog, Ysgol Tal y Bont

ac Ysgol Trefriw

Conwy

Ionawr 2016

		Tud
1	Cyflwyniad	3
2	Ymgynghoriad	3
2.1	Cyhoeddi'r Ymgynghoriad	3
2.2	Cyfarfod Ymgynghori	4
2.3	Gwybodaeth i Blant	4
3	Adborth o'r Ymgynghoriad	5
3.1	Adborth gan Randdeiliaid a'r Ardal	5
3.2	Adborth gan UCAC	7
3.3	Adborth gan ESTYN	8
4	Penderfyniad y Cabinet	11

1. Cyflwyniad

Gorffennodd Cyngor Bwrdeistref Sirol Conwy gyfnod o ymgynghori ar y cynnig i gau Ysgol Dolgarrog, Ysgol Tal y Bont ac Ysgol Trefriw o 31 Awst 2017 a sefydlu ysgol newydd ar safle presennol Ysgol Dolgarrog ar 1 Medi 2017. Cychwynnodd y cyfnod ymgynghori ar 28 Medi 2015 gan ddod i ben ar 9 Tachwedd 2015.

Cynhaliwyd yr ymgynghoriad yn unol â Deddf Safonau a Threfniadaeth Ysgol (Cymru) 2013 sy'n gofyn am gyhoeddi Cod Trefniadaeth Ysgol 2013 i roi arweiniad i gyrff perthnasol (Gweinidogion Cymru, awdurdodau lleol, cyrff llywodraethol).

Mae'r ddogfen hon yn nodi'r camau a gymerwyd yn ystod y cyfnod ymgynghori, bydd yn cyfeirio at ganfyddiadau a ganfuwyd yn ystod yr ymgynghoriad a bydd yn anelu at ateb a thrin yr ymholiadau a gyflwynwyd i'r Awdurdod.

2. Ymgynghoriad

2.1 Cyhoeddi'r Ymgynghoriad

Anfonwyd copi caled o'r ddogfen ymgynghori a thrwy e-bost at 204 o unigolion. Cyhoeddwyd y copi dwyieithog o'r Ddogfen Ymgynghori ar dudalen gwe Cyngor Bwrdeistref Sirol Conwy ynghyd â dogfennau eraill ynghylch y cynnig. Mae'r tabl isod yn darparu rhestr o'r rhai a gafodd gopi o'r Ddogfen Ymgynghori, fel sy'n cael ei gymell yn y Cod Trefniadaeth Ysgol.

Enw/Sefydliad	Y nifer a gafodd gopi
Rhieni, athrawon a staff Ysgol Dolgarrog, Ysgol Tal y Bont ac Ysgol Trefriw	150
Llywodraethwyr Ysgol Dolgarrog, Ysgol Tal y Bont ac Ysgol Trefriw	20
Penaethiaid a Llywodraethwyr Ysgol Bro Gwydir, Ysgol Eglwysbach, Ysgol Llangelynnin	6
Esgobaeth Bangor Yr Eglwys yng Nghymru ac Esgobaeth Gatholig Wrecsam	2
Gwasanaethau Addysg Cyngor Sir Ddinbych	1
Gwasanaethau Addysg Cyngor Gwynedd	1
Gweinidog Cymru dros Addysg a Sgiliau	1
Adran Rheoli ac Effeithioldeb Ysgol Llywodraeth Cymru	1
Aelod y Cynulliad a'r Aelod Seneddol sy'n cynrychioli'r ardal sy'n destun y cynigion	2
Cynghorwyr lleol Conwy ar gyfer wardiau Caerhun a Threfriw	2
Cyngor Cymuned Caerhun, Cyngor Cymuned Dolgarrog, Cyngor Cymuned Trefriw	3
Estyn	1
Undebau llafur athrawon a staff	8
GwE	1
Taith	1
Comisiynydd yr Heddlu a Throsedd Gogledd Cymru	1
PPPI Conwy	1
Cymunedau'n Gyntaf Conwy	1
Dechrau'n Deg Conwy	1

2.2 Y Cyfarfod Ymgynghori

Fel rhan o'r ymgynghoriad cafodd yr oll o'r uchod a gafodd gopi o'r Ddogfen Ymgynghori eu gwahodd i gyfarfod / sesiwn galw heibio ym mhob un o'r tair ysgol ar 13, 19 a 20 Hydref. Roedd y presenoldeb yn yr ysgolion hyn yn isel gyda rhieni, staff, llywodraethwyr ac aelodau'r gymuned yn bresennol.

Esboniwyd proses y Cynnig Statudol i'r rhai oedd yn bresennol i sicrhau eglurdeb o gymharu â'r ymgynghoriad blaenorol gydag Ardal Caerhun a Threfriw a byddai'r Hysbysiad Statudol yn cau'r tair ysgol yn gyfreithiol gan agor ysgol newydd ar safle presennol Ysgol Dolgarrog.

Codwyd pryderon ynghylch y gwahaniaeth rhwng yr ymgynghoriad presennol a blaenorol, ac ail ddywedwyd bod yr ymgynghoriad hwn i drafod yr amserlen statudol. Ar ôl esbonio'r amserlen statudol, teimlai nifer a oedd yn bresennol eu bod wedi'u camarwain, gan eu bod o dan yr argraff ei fod eisoes wedi'i gytuno y byddai un ysgol newydd yn cael ei hagor ar safle Dolgarrog (nid oedd y Cabinet wedi cytuno ar ddim bryd hynny). Esboniwyd i'r Cabinet yn 2013 gymeradwyo mynd ymlaen ag Achos Busnes a Statudol Cynigion Llywodraeth Cymru ar gyfer y dewis a ddymunir sef ysgol newydd ar safle Dolgarrog.

Atebwyd, fel oedd yn briodol, unrhyw gwestiwn a godwyd ynghylch y Prosiect nad oedd yn rhan o'r broses.

2.3 Gwybodaeth i Blant

Fel rhan o'r cynnig parhaus i gyfuno Ysgol Dolgarrog, Ysgol Tal y Bont ac Ysgol Trefriw rhoddwyd gwybodaeth i ddisgyblion ynghylch y cynnig a beth oedd cynlluniau'r dyfodol ar eu cyfer hwy.



Beth sy'n digwydd?

Mae cynllun i newid dy ysgol.

Hoffem gael gwybod beth wyt yn ei feddwl ohono...

Beth ydy'r Cynllun?

Y cynllun yw gwneud Ysgol Dolgarrog Ysgol Tal-y-Bont ac Ysgol Trefriw yn un ysgol ac adeiladu'r ysgol newydd yn Nolgarrog



Beth fyddai'n newid?

- Os wyt yn mynd i Ysgol Dolgarrog, byddi yn aros yn yr un lle tra bo'r gwaith adeiladu'n cael ei wneud ac yna symud i'r ysgol newydd ym Medi 2017 gyda'r holl blant eraill o Tal y Bont a Trefriw.
- Os wyt ti'n mynd i Ysgol Tal y Bont neu Ysgol Trefriw, byddi yn aros yn yr ysgol hyd y bydd yr ysgol newydd yn agor ym Medi 2017, ac yna byddi yn mynd gyda dy ffrindiau i'r ysgol newydd yn Nolgarrog a gwneud mwy o ffrindiau gyda'r plant o'r ysgolion eraill.
- Bydd gan yr ysgol newydd enw newydd ac gwisg ysgol newydd.



3. Adborth o'r Ymgynghoriad

Yn ystod y cyfnod ymgynghori cafodd Gwasanaethau Addysg Conwy 64 o ymatebion i'r Ddogfen Ymgynghori. Mae'r tablau isod yn dangos y dulliau a ddefnyddiodd rhanddeiliaid i ymateb a chan bwy y cafwyd ymateb.

Gellir gweld cynnwys yr holl ymatebion a gafwyd yn Atodiad 1.


Sylwer fod yr holl Atodiadau ar gael ar y safle wē isod

www.conwy.gov.uk/ardalcaerhunathrefriw

Ffurff yr ymateb	Nifer yr ymatebion a gafwyd
Ffurflen Ymateb i'r Ymgynghoriad	59
Llythyr / E-bost	5
Cyfanswm yr ymatebion	64

Ymatebion a ddarparwyd gan	Nifer yr ymatebion a gafwyd
Rhieni plentyn sy'n bresennol yn un o'r ysgolion	10
Rhiant plentyn oedd yn flaenorol yn un o'r ysgolion	16
Staff yn un o'r ysgolion	3
Llywodraethwr yn un o'r ysgolion	2
Plaid arall sydd â diddordeb	31
Undebau	1
Aelod o Gynulliad Cymru	1
Cyfanswm	64

O'r 64 ymateb a gafwyd, nid oedd 61 o blaid y cynnig i gyfuno. Roedd y mwyafrif o'r rhai nad oedd yn cytuno â'r cynnig o ardal Trefriw. Roedd y pryderon a godwyd yn cynnwys cludo disgyblion i Ddolgarrog o Drefriw a'r effaith ar y gymdeithas trwy golli ysgol y pentref.



3.1 Adborth Rhanddeiliaid a'r Ardal

Roedd yr adborth a gawsom gan rieni, llywodraethwyr a thrigolion yr ardal ehangach yn dangos yn bennaf nad oeddent yn cytuno â'r cynnig. Prif bryder y rhanddeiliaid oedd colli ysgol leol a'r effaith ar y gymdeithas ehangach.

Pryder arall oedd yr amser teithio ychwanegol i ddisgyblion o Drefriw i Ddolgarrog.

Er yr hysbyswyd preswylwyr y bydd amseroedd teithio yn fwy nag awr bob ffordd bob dydd, nid yw hyn yn gywir.

Dywed Polisi Cludiant Cartref i'r Ysgol Cyngor Bwrdeistref Sirol Conwy "Ystyrir na ddylai amser teithio arferol fod yn fwy na 45 munud ar gyfer teithio i ysgol gynradd a 60 munud ar gyfer teithio i ysgol uwchradd."

Amcanwyd y bydd cost cludo disgyblion o ardal Trefriw i'r ysgol arfaethedig newydd yn Nolgarrog tua £31,000 y flwyddyn.

Rhai o'r sylwadau a gafwyd yn ystod yr ymgynghoriad:

"Yn gymaint ag mae'n well gen i ysgol fach, yn realistig mae un ysgol fawr yn gwneud mwy o synnwyr."

"Mae pedair cenhedlaeth o fy nheulu wedi mynychu Ysgol Trefriw. Byddai'n drist ei gweld yn cau. Byddai'n fy rhoeni beth fyddai sefyllfa cludiant i blant bach sy'n gorfod mynychu ysgol mewn pentref arall."

"Byddai'n rhaid cludo plant ifanc beth pellter o'u cartrefi/pentref – problemau diogelwch! Colli ymdeimlad cymdeithasol – niweidiol i bentref bach gwledig gan arwain (o bosibl) at gollu gwasanaethau pentref pellach."

"Os bydd yr ysgol yn cau yn Nhrefriw ni fydd yn annog teuluoedd eraill i symud yma a bydd yn effeithio ar fusnesau a denu busnesau newydd."

Cododd un o'r ymatebion a gafwyd nifer o gwestiynau ar effaith y cynnig ar gymdeithas ehangach Trefriw parthed treth y cyngor, derbyniadau treth, yr effaith ar fusnesau lleol a cheisiadau cynllunio posibl y dyfodol ar y pentref.

Yn ystod cyfarfod Cabinet Conwy ar 24 Tachwedd gofynnwyd i'r Gwasanaeth Datblygiad Cymunedol gynnal asesiad effaith economaidd ar yr ardaloedd a effeithiwyd. Bydd hyn yn caniatáu i'r Awdurdod ymateb yn briodol i'r ymholiadau penodol ynghyd â darparu asesiad o'r effaith ar ardaloedd y tair ysgol.

Cododd yr ymateb hwn gwestiynau ynghylch cludiant i ddisgyblion i'r ysgol newydd arfaethedig. Fel y nodwyd yn flaenorol, bydd cludiant i'r ysgol newydd yn cael ei ddarparu'n unol â Pholisi Cludiant Cartref i'r Ysgol yr Awdurdod.

Codwyd cwestiynau pellach ynghylch effaith y cynnydd mewn trafndiaeth ar yr ardal oherwydd yr ysgol newydd a Surf Snowdonia a agorwyd yn ddiweddar.

Byddai gan yr ysgol newydd ddarpariaeth ar gyfer mannau codi a disgyn oddi ar y ffordd i rieni a thacsis i sicrhau bod disgyblion yn cyrraedd yr ysgol yn ddiogel.

Cwblhawyd Asesiad Effaith Trafndiaeth ar gyfer yr ysgol newydd arfaethedig yn flaenorol cyn agor Surf Snowdonia. Fel rhan o'r broses cynllunio ar gyfer Surf Snowdonia cwblhawyd Asesiad Trafndiaeth gan y datblygwyr ar gyfer y cyfleuster gan awgrymu 15 cerbyd ychwanegol yr awr yn ystod amseroedd brig. Yn unol â rheoliadau cynllunio byddai asesiad trafndiaeth yn cael ei gwblhau ar gyfer yr ysgol arfaethedig newydd ar y cam cynllunio angenrheidiol.

Agwedd arall a godwyd yn yr ymateb oedd y risg o'r ysgol newydd arfaethedig yn cael ei lleoli ger peilonau trydan. Dywed gwybodaeth ar wefan Cancer Research UK "Some reports have suggested that exposure to electromagnetic fields (for example, overhead power lines) might increase a child's risk of developing cancer. But as yet no conclusive link has been found."

"A UK report in February 2014 found that children who live near overhead power lines in early life do not have a greater risk of developing childhood leukaemia. The report is from the Childhood Cancer Research Group at the University of Oxford. The researchers looked at nearly 16,500 children diagnosed with leukaemia since the 1990s who lived within a

kilometre of overhead power lines. They say that there is no direct biological effect of power lines on leukaemia risk.”

Gellir gweld ymateb y rhanddeiliad yn Atodiad 2a yr adroddiad hwn.

Yn ystod y cyfnod ymgynghori cafwyd gohebiaeth gan Janet Finch Saunders, yr Aelod Cynulliad dros Aberconwy, gellir gweld yr ohebiaeth ynghyd ag ymateb yr Awdurdod yn Atodiad 2b yr adroddiad hwn.

3.2 Adborth UCAC

Canolbwyntiodd yr adborth a ddarparwyd gan UCAC ar dri phwynt - Rhesymau am y newid, adeiladau/adnoddau a strwythur staffio/trefniadau cyfamser. Mae sylwadau o'r adborth yn cynnwys:

“Mae UCAC yn llawn sylweddoli bod awdurdodau lleol dan bwysau i leihau'r niferoedd o lefydd gweigion o fewn ysgolion ac y mae'n amlwg bod y cynllun hwn yn ceisio ymateb i hynny... Rhaid i gynlluniau ysgolion newydd neu ailfodelu sicrhau bod hi'n rhwydd ymestyn y ddarpariaeth os cyfyd y galw.”

“Rydym yn casglu bod yr Awdurdod yn bur ffyddiog y bydd yn derbyn arian drwy grant ysgolion 21 Ganrif Llywodraeth Cymru ar gyfer y cynllun hwn ond hefyd yn rhagdybio bod y cynllun arfaethedig yn gwbl ddibynnol ar hynny.”

Mae Rhaglen Moderneiddio Ysgolion Cynradd yn cael ei ariannu ar sail 50/50 gan Gyngor Bwrdeistref Sirol Conwy a Rhaglen Ysgolion 21 Ganrif Llywodraeth Cymru.

“Mae UCAC yn nodi bod y Ddogfen yn cyfeirio at wahanol Ddewisiadau fu dan ystyriaeth cyn hyn ond hefyd yn sylwi nad oes unrhyw ddewis o ran cydweithio, megis ffederaleiddio, wedi ei wyntyllu'n llawn.”

Mewn ymateb i'r sylw uchod gan UCAC, gallwn gadarnhau, pan oedd y dewisiadau ar gyfer ardal Caerhun a Threfriw yn cael eu hystyried, nid oedd gan awdurdodau lleol y grym i ffederaleiddio ysgolion; grym y corff llywodraethol yn unig ydoedd. Nid oedd Gwasanaethau Addysg Conwy'n ymwybodol bod corff llywodraethol unrhyw ysgol wedi dod i gysylltiad ynghylch y bwriad i ffederaleiddio.

Ym Mai 2014 cyhoeddwyd Canllaw Proses Ffederaleiddio Ysgolion a Gynhelir yng Nghymru Llywodraeth Cymru gan wneud y broses ffederaleiddio yn fwy hygyrch i gryff llywodraethol a chaniatáu'r dewis i awdurdodau lleol i gychwyn ffederaleiddio. Parthed ardal Caerhun a Threfriw, penderfynodd Cabinet Conwy yn Nhachwedd 2013 (cyn y newid i'r canllaw) i fynd ymlaen â dewis 1 sef ysgol ardal newydd ar safle Dolgarrog.

Dywed UCAC hefyd: “Tra'n derbyn mai cyfrifoldeb Corff Llywodraethol Cysgodol fyddai pennu unrhyw strwythurau staffio terfynol i ysgol newydd, mae lle i'r Awdurdod fod yn rhoi mwy o ystyriaeth rŵan i oblygiadau'r cyfuno i swyddi staff presennol. Y cam cyntaf, wrth gwrs, fyddai penodi pennaeth a byddai UCAC am weld hyn yn digwydd o leiaf flwyddyn ymlaen llaw.”

Anela'r amserlen statudol bresennol i gyhoeddi hysbysiad statudol yn y flwyddyn newydd, unwaith y bydd hyn wedi'i wneud gall y trefniadau i sefydlu corff llywodraethol dros dro gychwyn. Ar ôl ffurfio'r corff, un o'i ddyletswyddau cyntaf fydd penodi pennaeth a bydd holl staff yr ysgolion presennol ac undebau yn cael gwybod am gynlluniau a datblygiadau.

Daw sylwadau UCAC i ben gyda: *“Mae UCAC yn pwysu ar y Cyngor i wneud pob dim posibl i ddod i benderfyniadau terfynol ar ddyfodol ysgolion ardal Caerhun a Threfriw cyn gynted â phosibl gan geisio cadw at yr amserlen arfaethedig.”*

Gellir gweld ymateb llawn UCAC yn Atodiad 3.

3.3 Adborth ESTYN

Mae'r adborth a ddarparwyd gan ESTYN yn cael ei baratoi trwy ateb set o gwestiynau i sicrhau bod yr awdurdod lleol wedi cymryd i ystyriaeth yr holl anghenion addysgol o fewn eu cynigion.

Gwnaeth ESTYN y sylwadau canlynol ynghylch disgrifiad a manteision y cynnig:

“Mae'r cynigiwr wedi amlinellu manteision y cynnig yn ddigonol o ran mynd i'r afael â'r lleoedd sydd dros ben ym mhob un o'r tair ysgol ar hyn o bryd, a darparu adeiladau ysgol mwy priodol i fodloni anghenion disgyblion yn yr ardal yn fwy effeithiol.”

Dywed yr ymateb gan ESTYN *“Nid yw'r cynigiwr yn dangos yn glir sut bydd y cynnig yn lleihau nifer gyffredinol y lleoedd dros ben yn yr ardal. Mae'r cynigiwr yn nodi nifer y lleoedd dros ben ar hyn o bryd sef 44%, 63% a 68% yn Ysgol Dolgarrog, Ysgol Tal y Bont ac Ysgol Trefriw yn y drefn honno, ac mae'n honni y bydd datblygu ysgol ardal newydd yn lleihau nifer y lleoedd dros ben yn sylweddol. Mewn man arall yn yr adroddiad, mae'n darparu gwybodaeth ddefnyddiol am niferoedd arfaethedig y disgyblion ar gyfer yr ysgolion presennol yn y pum mlynedd nesaf, ond nid yw'n cysylltu hyn ag amcangyfrif o nifer y lleoedd dros ben yn yr ysgol newydd.”*

Wedi'u cyfuno, mae gan y tair ysgol bresennol 124 o leoedd gwag o gymharu â'u maint; byddai rhagamcanion disgyblion ym Medi 2017 (pan fwriedir sefydlu ysgol ardal newydd) yn golygu 34 o leoedd gwag wrth gymharu â'r maint newydd o 120, byddai hyn yn ostyngiad o 90 lle gwag yn yr ardal. Gellir cyfrifo rhagamcanion nifer disgyblion a lleoedd gwag ar gyfer yr ysgol ardal newydd yn seiliedig ar y niferoedd presennol yn y tair ysgol bresennol, fel y dangosir yn y tabl isod.

	2017 Rhagamcan o nifer y disgyblion	% lleoedd sbâr	2020 Rhagamcan o nifer y disgyblion	% lleoedd sbâr
Dolgarrog (maint 90)	54	40%	57	37%
Tal y Bont (maint 60)	22	63%	21	65%
Trefriw (maint 69)	10	85%	2	97%
Yr ysgol newydd (maint 120)	86	29%	80	34%

Mae ymateb ESTYN yn gwneud y sylw canlynol ar yr iaith Gymraeg *“Mae'r cynnig i uno'r tair ysgol yn annhebygol o gael effaith negyddol ar ddarpariaeth cyfrwng Cymraeg yn yr awdurdod lleol. Mae pob un o'r tair ysgol yn ysgolion cyfrwng Cymraeg categori 1 ar hyn o bryd, fel y byddai'r ysgol newydd arfaethedig.”*

Parthed agwedd addysgol y cynnig dywed ESTYN *“Mae'n rhestru nifer o fanteision posibl ar gyfer deilliannau, darpariaeth ac arweinyddiaeth a rheolaeth a fyddai'n codi o'r ysgol unedig. Mae'r rhain yn cynnwys mwy o gyfleoedd ar gyfer gweithgareddau ychwanegol, cyfle gwell i ddisgyblion a staff fanteisio ar arbenigeddau, adnoddau a chyfleusterau ychwanegol a mwy o gyfleoedd ar gyfer datblygiad staff sydd â photensial ar gyfer strwythurau staffio a rheoli arbenigol. Fodd bynnag, mae'r rhain yn ymwneud yn bennaf â darpariaeth ac nid yw'r cynnig yn arfarnu'r rhain mewn unrhyw fanylder. At ei gilydd, nid yw'n nodi'n glir sut y byddai'r manteision posibl yn cael effaith ar safonau ysgol.”*

Gall darpariaeth well, cyfleoedd a mynediad arwain at well safonau i ddisgyblion fel yr amlinellwyd yn fanylach isod ac yn arbennig y cyfeiriad a grynhowyd yn adroddiad Estyn *“Maint ysgol ac effeithiolrwydd addysgol”* (Rhagfyr 2013)

Y cynnig ALI gwreiddiol 'sylw cwricwlwm'	Gwybodaeth ALI ychwanegol	*Canfyddiadau Estyn Adroddiad "Maint ysgol ac effeithiolrwydd addysgol" (Rhagfyr 2013)
Byddai cyfuno'n adeiladu ar y gwaith mae penaethiaid, staff a chyrrff llywodraethol eisoes wedi'i gychwyn er mwyn gwella safonau ysgol ymhellach. Gellid adeiladu ar y gwaith da yn fwy rhwydd; byddai cydweithio'n darparu'r manteision posibl canlynol i safonau disgyblion, gwell darpariaeth, arweiniad a rheolaeth:		
Creu ethos addysgol a rennir sy'n cefnogi plant o 3 hyd 11 oed ac yn gosod disgwyliadau uchel cyson ar bawb.	Mwy o amser digyswllt i'r pennaeth arwain, rheoli a gweithredu gwelliant strategol mewn safonau disgyblion.	<i>*Mewn ysgolion cynradd bach, mae gan lawer o benaethiaid gyfrifoldeb addysgu arwyddocaol sy'n cyfyngu'r amser y gallant ei roi i arwain a rheoli ac mae ganddynt lai o gyfleoedd i werthuso safonau a gyrru gwelliant.*</i>
Hefyd, bydd yn caniatáu i'r ardal uniaethu a chefnogi un ysgol gynradd ac o bosibl darparu un canolbwynt cymunedol mwy effeithiol trwy un corff llywodraethol. Bod ag amrywiaeth eang o weithgareddau 'tu allan i'r ysgol' sy'n elwa o fwy o adnoddau a allai ymwneud â diddordeb ac oed.	Mae hyrwyddo ymwneud y rhieni wedi'i brofi i gael effaith gadarnhaol ar safonau. (Gweler 'Ymarfer da mewn ymglymiad rhieniol' ac 'Effaith rhaglenni dysgu fel teulu ar safonau') Estyn.	
Hyrwyddo mwy o ryngweithio gan ganiatáu cyfleoedd ar gyfer gweithgareddau ychwanegol allai gael eu cefnogi gan rieni, plant a staff. Galluogi disgyblion a staff gael arbenigedd, adnoddau a chyfleusterau ychwanegol yn fwy rhwydd.	Bydd gan bob disgybl cynradd yn yr ardal fynediad at amgylchedd dysgu 21 ganrif sy'n elwa o gyfleoesterau ac adnoddau 3 ysgol ar un safle gan arwain at well canlyniadau i ddisgyblion e.e. neuadd addysg gorfforol.	<i>*Mae lles yn cael ei farnu'n ardderchog mewn 15% o ysgolion cynradd mawr o gymharu â 8% o ysgolion o faint canolig a 3% o ysgolion bach. Y nodweddion ardderchog fel arfer yw presenoldeb uchel, ymddygiad hynod dda, disgyblion yn cael cymryd rhan mewn mentrau sy'n hyrwyddo ffordd iach o fyw, agwedd disgyblion tuag at ddysgu, eu sgiliau cydeithasol a bywyd, a'u gallu i wneud penderfyniadau. Un o'r nodweddion mwyaf hynod yw'r pwyslais a roddir i lais y disgybl a sut mae disgyblion yn dylanwadu ar fywyd yr ysgol. Yn gyffredinol, po fwyaf yw'r ysgol, po fwyaf yw gallu staff i alluogi'r ymarferion hyn gael eu datblygu, ffurfioli a gwreiddio.*</i>
Lleihau dyblygu gyda darbodion maint wrth reoli cyllidebau.	Mae sefydliad gyda mwy o staff yn darparu mwy o gyfleoedd i rannu adnoddau, ymarfer da, profiad ac arbenigedd ar draws yr holl ysgol, er budd safonau disgyblion yn y pen draw.	

<p>Mwy o gyfleoedd i ddisgyblion gymysgu, cymdeithasu a datblygu gyda disgyblion ychwanegol o'u hoed eu hunain.</p>	<p>Dosbarthiadau o faint mwy addas a gostyngiadau yn yr amrediad oed o fewn dosbarthiadau. Cyfleoedd i blant weithio gyda'u cyfoedion mewn dosbarthiadau mwy a gyda phlant o lefelau cyrhaeddiad tebyg mewn grwpiau o faint mwy addas gan arwain at welliant mewn safonau.</p>	<p><i>*'Mae ansawdd addysgu'n dda neu well mewn 80% o ysgolion cynradd yn gyffredinol, ond mewn 72% o ysgolion cynradd bach iawn (dan 30) sydd ag addysgu sy'n dda neu well. Yn yr ysgolion hyn, mae tri neu fwy grŵp oedran ymhob dosbarth a rhaid i athrawon gynllunio a chyflwyno gwersi sy'n cyfarfod anghenion disgyblion o amrediad oed a gallu eang.'</i></p>
<p>Cynnwys amrywiaeth ehangach o weithgareddau ar gyfer disgyblion mwy abl a thalentog a rhai gydag anghenion dysgu ychwanegol a fydd yn arwain at well safonau</p>		<p><i>*'Mae safonau disgyblion yn dda neu well mewn cyfran uwch o ysgolion cynradd mwy nag ysgolion cynradd bach ac o faint canolig. Gallai hyn fod oherwydd bod ysgolion mawr yn tueddu i fod â mwy o arbenigedd a'r gallu i drin anghenion disgyblion sy'n fwy agored i niwed a disgyblion mwy abl a thalentog'.</i></p>
<p>Cryfhau darpariaeth iaith yr ysgol trwy weithio ynghyd i barhau i hyrwyddo'r defnydd o'r Gymraeg yn a thu allan i'r dosbarth.</p>	<p>Nifer cynyddol o blant yn galluogi disgyblion i ymarfer eu Cymraeg yn ddyddiol gyda mwy o gyfoedion. Cyfleoedd ychwanegol i gefnogi disgyblion sy'n ceisio cynyddu eu hyder wrth ddefnyddio'r ddwy iaith, gan annog disgyblion i barhau gyda'u haddysg yn Gymraeg neu'n ddwyieithog.</p>	<p><i>*'Mae canlyniadau asesiad y Cyfnod Sylfaen yn gwella gyda maint yr ysgol mewn sgiliau iaith, llythrennedd a chyfathrebu'</i></p> <p><i>'Mae'r ganran o ddisgyblion sy'n cyflawni'r lefel disgwylidig yn Gymraeg yn uwch mewn ysgolion mawr.'</i></p>
<p>Darparu mwy o gyfleoedd ar gyfer datblygu staff a dysgu ffyrdd newydd o wneud pethau.</p>	<p>Gallu defnyddio sgiliau athrawon yn fwy eang gan roi mwy o gyfle i staff rannu arbenigedd a phrofiad gan arwain at welliant yn safonau disgyblion.</p>	<p><i>*'Mae darpariaeth cwricwlwm yn well mewn ysgolion cynradd mawr. Mewn ysgolion bach, mae tuedd i fod â diffygion wrth ddarparu pynciau sylfaen yn y cyfnod allweddol. Mae'r diffygion hyn yn amrywio o ysgol i ysgol, ond yn aml wedi'u cysylltu â bylchau yn arbenigedd staff.'</i></p>

Yn 2008, cyflwynodd Estyn dystiolaeth i Is-bwyllgor Datblygiad Gwledig Llywodraeth Cymru, yn nodi: "yn gyffredinol, nid oes mantais i ddisgyblion mewn perthynas â safonau a gyrhaeddwyd mewn ysgolion cynradd bach... Mae ansawdd arweinyddiaeth ac addysgu yn ffactor pwysicach na maint cyffredinol ysgol; ac mae ysgolion bach, yn gyffredinol, yn wynebu mwy o bwysau ym meysydd arweinyddiaeth a rheoli, datblygu staff a chynllunio cwricwlwm"

Daw ymateb Estyn i ben trwy ddweud - *"Mae'r cynigiwr yn dangos, os bydd y cynnig yn mynd yn ei flaen, y bydd gwaith adeiladu ar gyfer yr ysgol newydd yn digwydd ar safle presennol Ysgol Dolgarrog tra bydd yr ysgol bresennol yn parhau i weithredu. Fodd bynnag, nid yw'r cynigiwr yn dangos sut mae'n bwriadu lleihau aflonyddwch posibl i ddysgwyr na staff presennol yr ysgol."*

Yn nhermau tarfu ar ddisgyblion a staff wrth i waith adeiladu'r ysgol newydd gael ei gyflawni, bydd Gwasanaethau Addysg yn sicrhau y bydd unrhyw darfu'n cael ei gadw i'r lleiafswm a bydd yn gweithio gyda'r contractwr a benodwyd, y corff llywodraethol dros dro a'r tair ysgol wrth ddatblygu camau'r gwaith.

Gellir gweld ymateb llawn Estyn yn Atodiad 4.

4. Penderfyniad y Cabinet

Cyfarfu aelodau Cabinet Cyngor Bwrdeistref Sirol Conwy ar 24 Tachwedd 2015 i drafod yr Ymgynghoriad ar Gyfuno Arfaethedig Ysgol Dolgarrog, Ysgol Tal y Bont ac Ysgol Trefriw.

Wedi cael yr wybodaeth a gasglwyd trwy ymgynghoriad, gan gynnwys yr holl ohebiaeth a gafwyd, cytunodd Cabinet Conwy i gyhoeddi'n ffurfiol hysbysiad statudol i benderfynu cyfuno Ysgol Dolgarrog, Ysgol Tal y Bont ac Ysgol Trefriw. Fel gyda phob penderfyniad Cabinet, roedd y penderfyniad hwn yn amodol i gyfnod galw i mewn o bum niwrnod gwaith, ar ôl cyhoeddi cofnodion y Cabinet. Galwyd y penderfyniad i mewn ac felly aeth ger bron y Prif Bwyllgor Trosolwg a Chraffu ar 7 Rhagfyr.

Cytunodd y pwyllgor Craffu i 'oedi ac adolygu' ar gyfer ardal Caerhun a Threfriw gan ofyn am ddarparu mwy o wybodaeth ariannol. Bydd y cynnig, ynghyd â'r wybodaeth ychwanegol a ofynnwyd gan Craffu, yn mynd ger bron Cabinet Conwy yn Chwefror 2016. Wedi penderfyniad y Cabinet bydd yr amserlen yn cael ei rhannu.